# Strategaeth Rheoli Asedau 2024 i 2029




**Tachwedd 2024**

# RHAGAIR

Fel pob Cyngor ar draws Cymru, mae'r Cyngor yn delio â phwysau ariannol sylweddol o ganlyniad i gyllid annigonol gan y llywodraeth, chwyddiant a galw cynyddol am y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu. Mae ein hasedau materol yn hanfodol i'n hadnoddau ariannol ac i gyflawni ein hamcanion corfforaethol. Hebddynt, ni fyddai modd cyflawni ein hamcanion corfforaethol yn llwyddiannus. Mae arnom angen gwneud arbedion, a rhan sylfaenol o hyn fydd sicrhau ein bod yn defnyddio ein hasedau yn gall ac yn strategol. Yn y cyd-destun hwn, mae ein Strategaeth Rheoli Asedau yn bwysicach nag erioed. Mae'n hanfodol ein bod yn rheoli ein hasedau yn gyfrifol i sicrhau ein bod yn cynnal gwerth am arian i'n trigolion a chefnogi ein hamcanion corfforaethol ehangach.

Mae'r strategaeth wedi gosod pedwar canlyniad allweddol sydd yma i'n helpu i arwain ein holl weithgareddau rheoli asedau, ac i sicrhau ei fod yn cael ei gyflawni'n gyfreithiol, yn dryloyw a chyda dealltwriaeth gywir o'r effaith ar ein cymunedau lleol - yn awr ac yn y dyfodol. Mae gan y strategaeth ganlyniad penodol o ran lleihau effaith amgylcheddol ein hasedau, ac yn amlinellu sut y byddwn yn lleihau ein defnydd o ynni/ allyriadau carbon drwy wella inswleiddio, mentrau lleihau ynni a rheoli cyfleusterau yn rhagweithiol. Byddwn hefyd yn lleihau ein hôl troed carbon drwy ymchwilio a buddsoddi mewn ynni adnewyddadwy.

Rydym yn cydnabod i ddarparu'r pedwar prif ganlyniad y bydd angen newidiadau sylweddol yn y ffordd yr ydym yn rheoli ein hasedau ar hyn o bryd, a bydd yn arwain at ffyrdd newydd o weithio, ac mewn rhai achosion, yn newid cyfrifoldebau. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i wneud y newid hwn a bydd yn darparu arweinyddiaeth a chefnogaeth glir a fydd ei angen i sicrhau llwyddiant.

Bydd y dull integredig hwn yn ein galluogi i wneud dewisiadau deallus mewn perthynas â defnyddio ein daliadau eiddo a derbyniadau i ddarparu polisïau cenedlaethol, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Ddeddf wedi gosod paramedrau lle mae'n rhaid i ni sicrhau bod ein gweithredoedd yn diwallu anghenion heddiw, a ddim yn cyfaddawdu anghenion cenedlaethau'r dyfodol. Mae'n rhaid i ni ystyried goblygiadau tymor hir a buddion a all ddeillio o'n rheoli asedau, buddsoddiad a darpariaeth, fel rhan o'n gyriant parhaus i ddarparu mwy am lai.

Mae rheoli asedau yn rhan allweddol o'r cynllunio busnes ac yn arf pwysig i fodloni heriau cyllidol cyfredol ac yn y dyfodol. Drwy'r dull unedig hwn, byddwn yn sicrhau bod gwerth a phwysigrwydd ein hasedau yn cael eu cydnabod yn glir o fewn ein holl gynlluniau a rhaglenni darparu yn y dyfodol.

**Y Cynghorydd Gwyneth Ellis**
**Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol**

# 1. CYD-DESTUN

1.1 Ynghyd â chyllid, pobl a TGCh, mae eiddo'n un o'r pedwar prif adnodd corfforaethol sy'n cynorthwyo i ddarparu'r holl wasanaethau. Oherwydd hynny, mae'r ffordd y defnyddir yr adnodd hwn yn gallu cael effaith sylweddol ar sut mae'r Cyngor yn darparu gwasanaethau ac ar ei sefyllfa ariannol. Bydd gwaith rheoli effeithiol ac effeithlon o bortffolio eiddo'r Cyngor yn helpu i sicrhau nad yw'r Cyngor yn gwastraffu arian ar asedau nad oes eu hangen i ddiwallu anghenion gwasanaeth. Bydd hefyd yn sicrhau y bydd yr adeiladau o ansawdd da ac yn gwneud gwasanaethau'n hawdd ac yn hygyrch i'r cyhoedd.

1.2 Ategir y strategaeth gan gyfres o Gynlluniau Portffolio, a fydd yn grwpio tir ac adeiladau gyda mathau tebyg o eiddo, yn hytrach nag ar hyd llinellau gwasanaethau. Datblygwyd y Cynlluniau Portffolio hyn trwy gyfres o gyfarfodydd a thrafodaethau gyda sawl swyddog o'r Cyngor sydd un ai'n meddiannu neu'n rheoli tir neu adeiladau yn y portffolio, a thrwy ddadansoddi rhai mesuryddion perfformiad sy'n ymwneud â'r eiddo. I ddatblygu Cynlluniau Portffolio, caiff gwaith adolygu'r eiddo ym mhob portffolio ei brofi yn erbyn y canlyniadau lefel uchel canlynol sydd yn ategu'r Strategaeth Rheoli Asedau.

# 2. EIN TIR AC ADEILADAU

2.1 Fel pob awdurdod lleol, mae Cyngor Sir Ddinbych yn berchen ar ystâd eiddo sylweddol, gyda 669 o adeiladau wedi'u dosbarthu ar draws 519 o safleoedd. Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys ein portffolio tai ac isadeiledd priffyrdd, ond mae'n cynnwys ysgolion, llyfrgelloedd, swyddfeydd, depos, cyfleusterau gofal ac adeiladau treftadaeth. Amcangyfrifwyd mai gwerth yr ystâd hon, gan eithrio isadeiledd tai a phriffyrdd, oedd £426,884,849 ym mis Mawrth 2023. Gyda'i gilydd, mae'r ystâd yn gorchuddio arwynebedd o 2,274.58 hectar ac yn darparu 295,756m$^2$ o arwynebedd mewnol gros.

2.2 Er mwyn helpu i reoli ein tir a'n hadeiladau, mae ein hasedau wedi'u trefnu yn ôl y portffolios canlynol:

1. **Cefnogaeth Gorfforaethol** – yr eiddo sy'n cael eu dal i gefnogi darpariaeth gwasanaeth prif ffrwd, gan gynnwys swyddfeydd a storfeydd corfforaethol.
2. **Addysg** – yr eiddo sy'n cael eu cynnal i gefnogi darpariaeth gwasanaethau addysg, gan gynnwys Ysgolion Cynradd, Ysgolion Uwchradd, Ysgolion Arbennig a Chanolfannau Integredig.
3. **Cymuned** – yr eiddo lle darperir gwasanaethau i'r cymunedau, gan gynnwys Neuaddau Tref, Canolfannau Cymunedol, Llyfrgelloedd/ Siopau Un Alwad, Canolfannau Ieuenctid, toiledau cyhoeddus a meysydd parcio.
4. **Cefn gwlad, Parciau a Mannau Agored** – eiddo sydd wedi eu nodweddu yn ôl tir yn hytrach nag adeiladau, gan gynnwys parciau, caeau chwarae, mannau agored, mynwentydd ac eiddo cefn gwlad.

5. **Masnachol** – yr eiddo hynny sydd yn cynhyrchu rhent neu incwm, ac yn aml mae ganddynt effaith economaidd lleol pwysig, gan gynnwys ystâd amaethyddol, ystâd datblygu economaidd ac eiddo Arfordirol.

6. **Gofal** – yr eiddo hynny sy'n darparu gofal arbenigol i breswylwyr diamddiffyn, gan gynnwys Cartrefi Preswyl a Gofal, Busnesau a gefnogir a Storfeydd Cyfarpar.
7. **Cynnal a Chadw** – yr eiddo sy'n cael eu cynnal i sicrhau bod gwaith cynnal a chadw yn y sir, gan gynnwys Prif/ Is Depo Priffyrdd a Chyfleusterau Gwastraff.
8. **Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig** – yr eiddo hynny ar brydles i gwmni hyd braich y cyngor ar gyfer darparu gwasanaethau chwaraeon a hamdden
9. **Dros ben / Arall** – eiddo amrywiol nad ydynt yn ffitio i mewn i unrhyw un o'r uchod, gan gynnwys chwareli ac eiddo a thir dros ben/ gwag.

Mae'r canlynol wedi eu heithrio o'r dull gweithredu hwn:

10. **Tai Cyngor** – eiddo a thir a gedwir yn benodol er mwyn cefnogi a darparu tai cyhoeddus, sydd â threfniadau rheoli ar wahân i asedau tir ac adeiladau eraill y Cyngor; ac
11. **Isadeiledd Priffyrdd** – a gedwir yn benodol i gefnogi a darparu isadeiledd priffyrdd ac sy'n rhan o bwrpas rheoli'r Cynllun Cludiant Lleol.

# 3. CYFLAWNIADAU ALLWEDDOL ERS 2017

3.1 Yn ystod cyfnod diwethaf y Strategaeth Rheoli Asedau – 2017 i 2023, cyflawnwyd nifer o brosiectau eiddo allweddol, gan gynnwys:

- Mae buddsoddiad parhaus yn ein hystâd o ysgolion, gan gynnwys adeilad ysgol newydd yn Llanfair Dyffryn Clwyd, wedi'i ariannu 50% drwy raglen gyllid grant Band A Ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru.
- Parhau i fuddsoddi mewn mesurau gwella effeithlonrwydd ynni ein hadeiladau, lleihau costau ynni ac allyriadau carbon.
- Datblygiad SC2 – parc dŵr dan do a weithredir gan Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig – fel rhan o'r rhaglen adfywio ehangach ar gyfer y Rhyl a ariennir yn rhannol drwy gyfraniad Cyngor Tref allanol a grantiau a benthyciadau Llywodraeth Cymru.
- Caffael a dymchwel Adeiladau'r Frenhines – casgliad sylweddol o adeiladau adfeiliedig a gwag yn bennaf yng nghanol tref y Rhyl – sydd wedi'u disodli gan ddatblygiad defnydd cymysg mawr 'Marchnad y Frenhines' i hybu adfywiad canol y dref. Ariannwyd y camau dymchwel ac adeiladu yn rhannol gan grantiau Llywodraeth Cymru.
- Sefydlu Tîm Adnoddau Cymunedol yn Neuadd y Sir – man a rennir ar gyfer staff Iechyd a Gofal Cymdeithasol i helpu i ddarparu gwasanaethau mwy cysylltiedig sy'n canolbwyntio ar y cleient.

- Gwell defnydd o Neuadd y Sir drwy ddatblygu Llys Crwneriaid penodedig a ariannwyd gan bob un o Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru, llety newydd ar gyfer Y Bont (menter â chymorth sy'n cael ei chynnal gan y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol) a ariannwyd yn rhannol gan Gronfa Gofal Integredig Llywodraeth Cymru, ac adleoli Cofrestrwyr o Neuadd y Dref Rhuthun i Neuadd y Sir.
- Cyflawni'n Strategaeth Ystadau Amaethyddol yn barhaus – gwerthu ein ffermydd i denantiaid presennol – sydd wedi codi derbyniadau cyfalaf sylweddol.
- Sefydlu meithrinfa goed sirol i gynhyrchu coed o darddiad lleol, wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru – Cyllid Lleoedd Lleol ar gyfer Natur a hefyd gan Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU.

3.2 Mae hefyd yn werth nodi bod y Tîm Rheoli Asedau wedi chwarae rhan bwysig yn ystod pandemig COVID-19, gan helpu i ddarparu llety ar gyfer canolfannau profi a brechu COVID-19.

# 4. EGWYDDOR GRAIDD SYLFAENOL

4.1 Mae pob penderfyniad a wneir mewn perthynas ag eiddo'r cyngor yn cael ei arwain gan yr egwyddor sylfaenol ganlynol:

**Byddwn yn darparu'r asedau cywir, yn y lle cywir, ac yn y cyflwr cywir i fodloni anghenion darparu gwasanaeth cyfredol ac yn y dyfodol, gan ystyried pwy sydd orau i fod yn berchen a gweithredu bob ased a chyfleoedd ar gyfer cydweithio.**

4.2 Mae gan y Cyngor broses Adolygu a Herio Cynllun Portffolio fel y mecanwaith craidd i gyflawni'r egwyddor sylfaenol hon a'r meysydd blaenoriaeth a nodir yn Adran 5. I gael mwy o wybodaeth am ein proses Adolygu a Herio Cynllun Portffolio, gweler atodiad 1.

# 5. ALINIAD STRATEGOL

5.1 Mabwysiadwyd y Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2022 – 2027 yn swyddogol ym mis Hydref 2022 ac mae'n cynnwys nifer o flaenoriaethau newydd. Mewn perthynas â'n portffolio tir ac adeiladau, mae'r pedair blaenoriaeth ganlynol wedi'u nodi:

1. **Gweithredu Hinsawdd ac Adfer Natur** - a fyddai'n cynnwys gwella perfformiad ynni adeiladau, gostwng ôl-troed cyffredinol adeiladu, hwyluso llai o deithio, cynyddu dal carbon o eiddo cyfredol ac eiddo newydd, gwella bioamrywiaeth ar ein safleoedd, ac ati. Yn ogystal â chynyddu dealltwriaeth o, a gwella, gwytnwch ein hasedau yn erbyn effaith hinsawdd.

2. **Moderneiddio Addysg** - a gyflawnir yn bennaf gan Addysg ond bydd yn golygu buddsoddi sylweddol yn ein hadeiladau ysgol dros y bum mlynedd nesaf.

3. **Adfywio** - ble mae'r Cyngor yn ymyrryd yn uniongyrchol yn y farchnad eiddo i hyrwyddo adfywio a datblygu economaidd, yn arbennig yng nghanol trefi.

4. **Ffyrdd Newydd o Weithio a Chydweithio** - yn edrych yn benodol ar ein portffolio swyddfeydd a sut mae angen i hwn newid o ystyried cynnydd sylweddol mewn gweithio o gartref (ar ôl COVID), ynghyd â datblygu cyfleoedd i gydweithio i greu perchnogaeth asedau a model gweithredu sy'n gynaliadwy.

5.2 O ran eiddo, y rhain yw'r blaenoriaethau corfforaethol pwysicaf i fynd i'r afael â nhw yn y 5 mlynedd nesaf. Ceir gwybodaeth fanylach am bob un o'r blaenoriaethau hyn yn yr adrannau a ganlyn, ond rydym hefyd yn cydnabod bod rhai cysylltiadau a chyd-ddibyniaethau rhwng y blaenoriaethau hyn. Er enghraifft, mae lleihau nifer mewn swyddfeydd fel rhan o NWOW hefyd yn lleihau allyriadau carbon.

5.3 Bydd cyflawni'r deilliannau a amlinellir yn y strategaeth hon yn ddibynnol ar sicrhau'r cyllid angenrheidiol, trwy ddefnyddio cyfleoedd i gael cyllid allanol a blaenoriaethu'r adnodd cyfyngedig sydd gennym fel Cyngor.

# 6. BLAENORIAETH 1: CAMAU GWEITHREDU HINSAWDD AC ADFER NATUR

## 6.1 Pam bod hyn yn flaenoriaeth?

6.1.1 Gan fod y swm o garbon deuocsid y mae cymdeithas ddynol wedi'i ryddhau i atmosffer y ddaear wedi cynyddu, mae tymheredd byd-eang wedi cynyddu hefyd. Os na fydd allyriadau CO2e yn lleihau bydd y ddaear yn cynhesu ac yn cynhesu. Mae'r cynnydd hwn yn nhymheredd byd-eang yn achosi i'n hinsawdd a'n planed newid. Mae'r newidiadau hyn i'n hinsawdd yn cynnwys; hafau poethach a sychach, gaeafau cynhesach a gwlypach, digwyddiadau mwy eithafol yn ymwneud â'r tywydd a lefel y môr yn codi. Mae hyn yn achosi: mwy o sychder a thanau gwyllt, stormydd cryfach, mwy o gyfnodau o dywydd poeth iawn, llifogydd, difrod i gwrelau, llai o eira a rhew, rhew parhaol yn dadmer, newidiadau yng nghylchoedd bywyd planhigion a newidiadau i arferion mudo anifeiliaid a chylchoedd bywyd.

6.1.2 Ar yr un pryd, mae natur yn dirywio ac mae cred bod dirywiad o 68% yn niferoedd bywyd gwyllt y byd rhwng 1970 a 2020. Mae gweithgarwch pobl yn lleihau ansawdd a faint o gynefin sydd ar gael i fywyd gwyllt ac mae cynefinoedd yn mynd yn fwyfwy tameidiog sy'n lleihau gallu rhywogaethau i ymfudo ac aros yn y cynefin maent ei angen i fyw. Wrth i dymheredd barhau i gynyddu, a maint a chysylltedd cynefinoedd barhau i ddirywio, bydd newid hinsawdd yn arwain fwyfwy at golli rhywogaethau.

6.1.3 Mae'r hinsawdd yn newid ym mhob man ar ein planed, gan gynnwys yma yng Ngogledd Cymru. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r rhanbarth wedi gweld mwy o lifogydd a hynny'n amlach, gwres llethol a stormydd cryfach a mwy cyson. Mae 354 o rywogaethau sy'n bodoli yng Nghymru mewn perygl o ddiflannu.

6.1.4 Mae sylweddoli bod amser yn dod i ben yn gyflym wedi arwain at ddatgan argyfwng hinsawdd gan lawer o sefydliadau, gan gynnwys Cyngor Sir Ddinbych ym mis Gorffennaf 2019. Ers hynny rydym wedi datblygu Strategaeth Garbon a Newid Ecolegol, a fabwysiadwyd gan y cyngor ym mis Chwefror 2021. Y ddau nod a nodir yn y strategaeth hon yw:

- Bod cyfanswm y carbon y caiff ei ryddhau gan y Cyngor namyn cyfanswm y carbon sy'n cael ei amsugno gan dir sy'n eiddo i'r Cyngor ac sy'n cael ei weithredu ganddo yn gwneud cyfanswm o sero erbyn 31 Mawrth 2030. Dyma ein nod carbon sero net. Yn ogystal,

- Gwarchod, rheoli ac adfer ein tir yn ogystal â chreu mannau newydd ar gyfer natur fel bod yr ecosystemau yn Sir Ddinbych yn amrywiol, yn gysylltiedig, yn fawr o ran maint neu raddfa, mewn cyflwr da ac yn hyblyg, ac felly nid yn unig yn cynnal bioamrywiaeth ond hefyd yn ei gwella. Dyma ein nod i fod yn Gyngor Ecolegol Gadarnhaol.

6.1.5 Yn 2023/24, cwblhaodd y Cyngor ddiweddariad Blwyddyn 3 o'r Strategaeth, a gaiff ei gyflwyno i'r Cyngor ym mis Gorffennaf 2024 i'w fabwysiadu. Maes canolbwynt newydd i'r Cyngor yn fersiwn Blwyddyn 3 wedi'i Diweddaru o'i Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol yw cynyddu gwytnwch yn erbyn risgiau i'r hinsawdd, fel Cyngor ac ar draws y Sir. Hyd yn oed pe baem yn gostwng allyriadau'n sylweddol dros y ddegawd nesaf, mae hyn yn cydnabod bod cynhesu pellach yn anochel, ac mae'n rhaid i ni addasu i ymdrin â'r newidiadau hinsawdd yr ydym eisoes yn eu profi a'r newidiadau pellach nad oes modd eu gwrthdroi. Mae ail ailadroddiad y strategaeth yn cynnwys camau gweithredu ar y Cyngor i gynyddu dealltwriaeth o wydnwch y Cyngor yn erbyn risgiau i'r hinsawdd, a rhoi cynlluniau a chamau gweithredu ar waith i gynyddu ei wydnwch yn wyneb effeithiau'r hinsawdd.

6.1.6 Er mwyn cyflawni ein nod Di-Garbon Net, mae angen i'r Cyngor leihau faint o garbon y mae'n ei ryddhau a chynyddu faint o garbon y mae'n ei amsugno. Mae gan ein portffolio eiddo gyfraniad mawr i'w wneud at y ddau nod hyn, o ystyried bod yr allyriadau o'n hadeiladau ar hyn o bryd yn cynrychioli 60% o gyfanswm allyriadau'r cyngor (ac eithrio'r gadwyn gyflenwi). Bydd angen mwy o dir i wrthbwyso'r carbon rydym yn dal i ddisgwyl ei ryddhau erbyn ein dyddiad targed o 2030. Mae ymdrechion i leihau'r defnydd o ynni ac allyriadau carbon hefyd yn arbed arian i'r Cyngor yn ein biliau cyfleustodau. Yn seiliedig ar brosiectau wedi'u cyflawni a'u modelu, mae'n ymddangos mai'r budd ariannol cyson yw - £2 o fudd ariannol am bob £1 a fuddsoddir.

6.1.7 Yn yr un modd, bydd eiddo yn chwarae rhan sylfaenol wrth helpu i gyflawni ein nod Ecolegol Gadarnhaol, gan y bydd angen i ni adfer a newid sut rydym yn rheoli tir yr ydym yn berchen arno ar hyn o bryd. Rhaid cymryd camau i gynyddu amrywiaeth rhywogaethau, a chynyddu ein perchnogaeth tir i greu mannau newydd (cilfachau ecolegol) ar gyfer natur.

## 6.2 Pa ganlyniadau ydyn ni'n ceisio eu cyflawni?

6.2.1 Mae'r Strategaeth Garbon a Newid Ecolegol yn eang ei chwmpas a'i huchelgais, ond o safbwynt eiddo, ein nod yw cyflawni'r canlyniadau canlynol:

1. **Lleihau Allyriadau Carbon** - Erbyn diwedd mis Mawrth 2030, byddwn wedi lleihau allyriadau carbon o'r trydan, nwy, LPG, olew, biomas a'r dŵr rydym yn ei ddefnyddio mewn adeiladau sy'n eiddo i'r cyngor o 60% (o linell sylfaen 2019/20).

2. **Dal a Storio mwy o Garbon** - Erbyn diwedd mis Mawrth 2030, byddwn wedi cynyddu faint o garbon sy'n cael ei ddal a'i storio o eiddo y mae'r cyngor yn berchen arno o 575% (o linell sylfaen 2019/20) drwy blannu mwy ar eiddo presennol a chaffael safleoedd newydd.

3. **Gwella Bioamrywiaeth** - Erbyn diwedd mis Mawrth 2030, byddwn wedi defnyddio'r tir a'r eiddo rydym yn berchen arnynt – yn safleoedd presennol a newydd – i greu ecosystemau amrywiol, cysylltiedig a mawr sy'n gwella bioamrywiaeth yn y sir.

4. **Cynyddu ein Gwytnwch i Effeithiau Newid yn yr Hinsawdd** - Gan adeiladu ar waith archwiliol a gynhaliwyd yn 2023/24, byddwn wedi cynyddu ein gwybodaeth am effaith yr hinsawdd ar eiddo, a gwytnwch dilynol gwasanaethau sy'n defnyddio'r asedau hynny. Byddwn wedi manteisio ar gyfleoedd i ddefnyddio ein tir ar draws y sir i gyflawni sawl amcan e.e. rheoli perygl llifogydd yn naturiol drwy blannu coed.

## 6.3 Sut fyddwn ni'n mesur cynnydd tuag at y canlyniadau hyn?

6.3.1 Byddwn yn mesur cynnydd drwy'r set ganlynol o ddangosyddion perfformiad:

i. Tunelli $CO^2$ Net o allyriadau gan amsugno o adeiladau a gweithrediadau'r cyngor.
ii. Tunelli $CO^2$ o allyriadau drwy staff yn cymudo.
iii. Tunelli $CO^2$ o allyriadau drwy deithio busnes.
iv. Tunelli $CO^2$ o allyriadau drwy gadwyni cyflenwi.
v. Canran y tir y mae'r cyngor yn berchen arno ac yn ei weithredu sydd yn y categori "Y Cyfoeth Uchaf o ran Rhywogaethau".

6.3.2 Mae Atodiad 2 yn amlinellu'r data sylfaenol ar gyfer y mesuryddion perfformiad uchod. Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno'n flynyddol i'r 'Grŵp Rheoli Asedau' i adrodd a monitro'r data uchod.

## 6.4 Beth ydym ni'n mynd i'w wneud i gyflawni'r canlyniad?

6.4.1 Cyflawnir y canlyniadau drwy gyfuniad o weithgareddau, a all gynnwys:

- Gwella'r defnydd o ynni'n effeithlon yn ein hadeiladau.
- Trosi adeiladau i gynnwys ffynonellau gwres carbon isel, fel pympiau gwres yr awyr a'r ddaear.

- Dylunio ac adeiladu pob adeilad newydd i gynnwys ffynonellau gwres carbon isel.
- Cynyddu faint o ynni adnewyddadwy a gynhyrchir ar y safle.
- Cael gwared ar adeiladau segur nad oes eu hangen mwyach.
- Cynyddu canopi coed mewn safleoedd sydd eisoes yn eiddo i'r cyngor.
- Caffael safleoedd ychwanegol i gyrraedd ein targed o amsugno carbon, gan ein helpu i gyrraedd ein targed o fod yn gyngor di-garbon net ac yn ecolegol gadarnhaol.
- Ymgymryd â gwaith i wella bioamrywiaeth safleoedd sydd eisoes yn eiddo i'r cyngor.
- Adolygu a newid sut rydym yn dylunio adeiladau newydd i wneud y mwyaf o’r potensial o ran bioamrywiaeth (e.e. gwrychoedd yn hytrach na ffensys, twneli draenogod, blychau ystlumod/adar, ac ati)
- Cefnogi’r gwaith o ailgyflwyno rhywogaethau cynhenid ar safleoedd sy’n eiddo i’r cyngor lle mae cynefinoedd addas yn bodoli.
- Adeiladu ar waith ymchwil a gwblhawyd yn 2023/24 mewn perthynas â gwytnwch hinsawdd gofal cymdeithasol er mwyn gwella gwybodaeth a gwneud gwelliannau i wytnwch gwasanaethau

# 7. BLAENORIAETH 2: MODERNEIDDIO ADDYSG

## 7.1 Pam bod hyn yn flaenoriaeth?

7.1.1 Ar ôl degawdau o danfuddsoddi, mae’r rhaglen Moderneiddio Addysg wedi dechrau gwrthdroi’r dirywiad yng nghyflwr ac addasrwydd adeiladau ein hysgolion. Gyda chyfraniadau ariannol sylweddol gan Lywodraeth Cymru a’r cyngor, buddsoddwyd £95 miliwn yng ngham cyntaf y rhaglen hon – Band A – er mwyn gwella ein hysgolion. Roedd y buddsoddiad hwn yn cynnwys ysgolion cynradd newydd yn Rhuthun, Llanfair Dyffryn Clwyd a Clocaenog, estyniad newydd ac adnewyddiad mawr i Ysgol Glan Clwyd yn Llanelwy, ac adeilad Ysgol Uwchradd newydd sbon yn y Rhyl.

7.1.2 Mae cam nesaf y buddsoddiad i ysgolion wedi gweld Llywodraeth Cymru yn symud oddi wrth fandiau buddsoddi 5 mlynedd i ddull mwy hyblyg, dros gyfnod hwy o 9 mlynedd, a'r 9 mlynedd wedi'u rhannu'n 3 bloc o 3 blynedd yr un. Gofynnwyd i bob awdurdod lleol greu Rhaglen Dreigl. Mae ymagwedd Sir Ddinbych i’r Rhaglen Dreigl yn canolbwyntio ar ddarparu adeiladau a chyfleusterau o ansawdd uchel sy’n bodloni anghenion disgyblion, teuluoedd, a’r gymuned ehangach. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru. Mae’r strategaeth ehangach hefyd yn adlewyrchu targedau ehangach, megis y rôl y gall addysg ei chwarae wrth gyflawni’r targed cenedlaethol ar gyfer Cymraeg 2050 a’r nod Di-garbon Net.

## 7.2 Pa ganlyniadau ydyn ni’n ceisio eu cyflawni?

7.2.1 Mae Creu Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn amlochrog, ond o safbwynt eiddo, ein nod yw cyflawni’r canlyniadau canlynol:

1. **Lleoedd Gwag Disgyblion** – erbyn diwedd mis Mawrth 2029, byddwn wedi sicrhau bod lefel gyffredinol y lleoedd gwag yn gostwng o 25% (o linell sylfaen 2019/20).

2. **Cyflwr Adeiladau** - erbyn diwedd mis Mawrth 2029, byddwn wedi gwella cyflwr adeiladau ysgolion, gyda gostyngiad o 35% yn nifer yr adeiladau a ystyrir yn wael (o linell sylfaen 2019/20).

3. **Lleihau Allyriadau Carbon** - Erbyn diwedd mis Mawrth 2030, byddwn wedi lleihau allyriadau carbon o'r trydan, nwy, LPG, olew, biomas a'r dŵr rydym yn ei ddefnyddio mewn adeiladau ysgolion o 60% (o linell sylfaen 2019/20).

### 7.3 Sut fyddwn ni'n mesur cynnydd tuag at y canlyniadau hyn?

7.3.1 Byddwn yn mesur cynnydd drwy'r set ganlynol o ddangosyddion perfformiad:

i. Nifer y lleoedd gwag mewn ysgolion ar draws y portffolio ysgol
ii. Nifer y lleoedd gwag mewn ysgolion Cynradd
iii. Nifer y lleoedd gwag mewn ysgolion Uwchradd
iv. Nifer adeiladau ysgolion sydd yn y categori cyflwr materol gwael (Gradd C neu D)
v. Tunelli o allyriadau $CO_2$ o adeiladau ysgolion

7.3.2 Mae Atodiad 2 yn amlinellu'r data sylfaenol ar gyfer y mesuryddion perfformiad uchod. Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno'n flynyddol i'r 'Grŵp Rheoli Asedau' i adrodd a monitro'r data uchod.

### 7.4 Beth ydym ni'n mynd i'w wneud i gyflawni'r canlyniad?

7.4.1 Cyflawnir y canlyniadau drwy gyfuniad o weithgareddau, a all gynnwys:

- Gwelliannau materol i adeiladau ysgolion, gan gynnwys estyniadau ac adnewyddu, i ddarparu ar gyfer niferoedd a ragwelir yn yr ysgolion a gwella amgylcheddau dysgu.
- Adeiladu ysgolion newydd.
- Gwaith i wella effeithlonrwydd ynni a lleihau allyriadau carbon o adeiladau ysgolion.

## 8. BLAENORIAETH 3: ADFYWIO

### 8.1 Pam bod hyn yn flaenoriaeth?

8.1.1 Mae'r dirywiad i ganol trefi ar draws y DU yn hysbys iawn, ac mae effaith pandemig COVID-19 wedi gwaethygu'r problemau mewn sawl lle. Mae gan Sir Ddinbych nifer o ganol trefi, ac mae pob un ohonynt yn teimlo effaith newid patrymau manwerthu i ryw raddau. Mae rhai, fel Prestatyn a Rhuthun – a ddaeth yn gyntaf ac yn ail mewn "mynegai bywiogrwydd" canol trefi Cymru yn 2021 – i'w gweld yn gwneud yn gymharol dda o dan yr amgylchiadau. Nid yw eraill, fel y Rhyl, yn gwneud cystal, gyda chyfraddau uchel o unedau gwag ac adeiladau wedi'u

cynnal a'u cadw'n wael, sydd yn ei dro yn creu amgylchedd siopa gwael ac yn digalonni pobl rhag ymweld.

8.1.2 Mae'r sector preifat wedi colli hyder yn y meysydd hyn ac nid yw'n buddsoddi mewn eiddo, nid mewn adeiladau newydd nac ychwaith yn adnewyddu adeiladau presennol. Er mwyn adfer hyder y sector preifat, efallai y bydd y cyngor am ymyrryd yn rhagweithiol yn y farchnad eiddo, yn dibynnu ar y cyllid sydd ar gael, i wella golwg ein trefi, creu cyfleoedd newydd i fusnesau a chyflawni ein hamcanion adfywio. Rydym eisoes wedi arfer gwneud hyn, ar ôl caffael Adeilad y Frenhines ac eiddo eraill ar y Stryd Fawr yn y Rhyl, gan wneud y mwyaf o'r arian allanol. Fodd bynnag, efallai y bydd angen ymyrryd yn wahanol wrth symud ymlaen er mwyn creu parthau cyhoeddus newydd o ansawdd uchel, gwella adeiladau i osod meincnod newydd ar gyfer safon a dylunio yng nghanol ein trefi, a chyflwyno gwell cymysgedd o ddefnyddiau.

## 8.2 Pa ganlyniadau ydyn ni'n ceisio eu cyflawni?

8.2.1 Mae adfywio yn eang ei gwmpas ac yn amlochrog, ond o safbwynt eiddo, ein nod yw cyflawni'r canlyniadau canlynol:

1. **Ymddangosiad** – erbyn diwedd mis Mawrth 2029 byddwn wedi gwella ymddangosiad rhai o ganol ein trefi yn sylweddol. Byddwn wedi ymyrryd mewn eiddo allweddol naill ai drwy eu hadnewyddu ar gyfer defnyddiau newydd, neu eu dymchwel a'u hailddatblygu gydag adeiladau newydd neu fannau cyhoeddus.

2. **Busnesau a swyddi newydd** – erbyn diwedd mis Mawrth 2029, drwy waith adnewyddu neu ailddatblygu, byddwn wedi creu mannau masnachol o safon yng nghanol rhai trefi, a fydd yn cael eu meddiannu gan fusnesau newydd, gan greu swyddi newydd.

3. **Cartrefi Newydd** – erbyn diwedd mis Mawrth 2029, drwy adnewyddu neu ailddatblygu, byddwn wedi creu cartrefi newydd o safon, gan ddenu trigolion newydd i ddod i fyw yn rhai o ganol ein trefi.

8.2.2 Mewn perthynas â chanlyniad 3, byddwn yn gweithio'n agos gyda'r sector preifat, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac adran dai'r cyngor ei hun i greu cymysgedd cytbwys o fathau o dai a deiliadaethau. Byddwn yn canolbwyntio'n bennaf ar geisio denu gweithwyr proffesiynol ifanc i ganol ein trefi.

## 8.3 Sut fyddwn ni'n mesur cynnydd tuag at y canlyniadau hyn?

8.3.1 O ran elfennau eiddo ein hymdrechion i adfywio, byddwn yn mesur cynnydd drwy'r set ganlynol o ddangosyddion perfformiad mewn perthynas ag eiddo y buom yn ymwneud yn uniongyrchol â nhw fel Cyngor:

i. $m^2$ o arwynebedd llawr nas defnyddir/adfeiliedig wedi'i ddymchwel

ii. $m^2$ o arwynebedd llawr masnachol wedi'i greu
iii. nifer y busnesau yn y lleoliad
iv. $m^2$ o arwynebedd llawr preswyl wedi'i greu
v. Nifer o unedau preswyl wedi'u creu

8.3.2 Mae Atodiad 2 yn amlinellu'r data sylfaenol ar gyfer y mesuryddion perfformiad uchod. Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno'n flynyddol i'r 'Grŵp Rheoli Asedau' i adrodd a monitro'r data uchod.

## 8.4 Beth ydym ni'n mynd i'w wneud i gyflawni'r canlyniad?

8.4.1 Cyflawnir y canlyniadau drwy gyfuniad o weithgareddau, a all gynnwys:

- Adolygu defnydd Marchnad y Frenhines yn y dyfodol gyda'r nod o ddechrau yn 2024.
- Adnewyddu eiddo yng nghanol y dref ar gyfer y prosiect "Byw Cyfoes".
- Adnewyddu 26 Ffordd Wellington
- Nodi a chaffael eiddo arall yng nghanol y dref, sydd naill ai mewn cyflwr gwael neu mewn lleoliadau allweddol, ac yna eu hadnewyddu neu eu hailddatblygu.
- Nodi a chaffael unrhyw eiddo y gallai fod eu hangen, i wella rhediad traffig yng nghanol trefi.

# 9. FFYRDD NEWYDD O WEITHIO A CHYDWEITHIO

## 9.1 Pam bod hyn yn flaenoriaeth?

9.1.1 Dangosodd pandemig COVID-19 y gall y mwyafrif o staff swyddfa Cyngor Sir Ddinbych weithio'n llwyddiannus iawn gartref. Ar gyfer y cyfnodau clo cyfan, ychydig iawn o staff swyddfa oedd yn mynychu'r gweithle. Mae hyn wedi dangos y gall y rhan fwyaf o swyddogaethau swyddfa'r Cyngor gael eu cwblhau gyda swyddogion yn gweithio gartref. Fel y cyfryw, y disgwyl yw y bydd gweithio gartref yn parhau i fod yn rhan annatod o fywyd gwaith llawer o staff swyddfa yn y dyfodol.

9.1.2 Ar ôl cadarnhau y gellir cyflawni'r rhan fwyaf o swyddogaethau swyddfa'n llwyddiannus gartref, mae cyfleoedd i ailfeddwl am amgylchedd y swyddfa i weddu i ddull mwy "cymysg" o weithio – gan dreulio ychydig o amser yn y swyddfa ond llawer mwy o amser yn gweithio gartref na'r cyfnod cyn COVID. Tua 30% i 50% o staff sy'n mynychu'r gweithle ar unrhyw ddiwrnod gwaith. Yn ogystal â hynny, bydd y rhesymau pam fod pobl yn mynychu'r gweithle yn fwy tebygol o gael ei annog gyda'r angen i gwrdd a chydweithio gydag eraill, yn hytrach na chyflawni gweithrediadau dydd i ddydd a ellir ei gyflawni adref.

9.1.3 Mae'r newid hwn mewn ffyrdd o weithio yn cael ei brofi ar draws busnesau a'r sector cyhoeddus yng Ngogledd Cymru. Mae'n debyg y bydd cyfleoedd i ailystyried ystadau mewn ardaloedd lleol ac ar draws sectorau yn y 5 mlynedd nesaf wrth i sefydlu asedau aml-

ddefnydd/amlasiantaeth ryddhau safleoedd dros ben i'w hail-bwrpasu ar gyfer gofynion a blaenoriaethau eraill (e.e., Tai, Gwytnwch Cymunedol ac ati).

9.1.4 Er mwyn ystyried a darparu ystod eang o fuddion a allai ddeillio o gynnydd yn nifer y staff sy'n gweithio gartref, cynhaliodd y cyngor adolygiad o Ffyrdd Newydd o Weithio ac, o safbwynt eiddo, mae angen i ni ailystyried yr hyn rydym yn ei ddarparu o ran swyddfeydd, yn benodol:

- Newid cynllun a threfniadaeth ein swyddfeydd i wella'r defnydd ohonynt;
- O ystyried y nifer a'r math o fannau cyfarfod rydym yn eu darparu, os mai un o'r prif resymau pam fod pobl yn mynd i'r swyddfa yw i gyfarfod ag eraill a chydweithio; a
- Lleihau'r swm cyffredinol o ofod a ddefnyddir ar gyfer defnydd swyddfa.

Bydd darparu'r prif bwyntiau hyn a mynd ati'n rhagweithiol i chwilio am gyfleoedd i gydweithio yn parhau i fod yn nodwedd am y 5 mlynedd nesaf.

## 9.2 Pa ganlyniadau ydyn ni'n ceisio eu cyflawni?

9.2.1 Mae'r Ffyrdd Newydd o Weithio yn y Cyngor yn eang eu cwmpas, ond o safbwynt eiddo, ein nod yw cyflawni'r canlyniadau canlynol:

1. **Dyluniad Gweithleoedd** – Erbyn diwedd mis Mawrth 2029 byddwn wedi lleihau faint o arwynebedd llawr sydd wedi'i neilltuo ar gyfer defnydd swyddfa, ac wedi ailgynllunio'r gofodau hynny i ddiwallu anghenion gweithlu a fydd yn treulio cyfran sylweddol o amser yn gweithio gartref.

2. **Defnyddio Eiddo** – Erbyn diwedd mis Mawrth 2029 byddwn wedi ailystyried ein portffolio eiddo ac wedi cyflawni arbedion refeniw drwy wella'r defnydd o'n hadeiladau swyddfa. Hwylusir hyn gan gynnydd yn nifer y staff sy'n gweithio gartref a chydweithio â chyrff cyhoeddus eraill.

9.2.2 Gall cydweithio mewn asedau fod ar sawl ffurf, ond o safbwynt rheoli asedau, ein nod yw cyflawni'r canlyniadau canlynol:

3. **Perchnogaeth Asedau a Gweithredu Cynaliadwy** – Erbyn diwedd mis Mawrth 2029 byddwn wedi cwblhau adolygiad o'n hasedau gan ddefnyddio'r broses Adolygu a Herio Cynllun Portffolio i gwestiynu pwy sydd orau i fod yn berchen ar bob ased a'u gweithredu, a sut y gall y model hwn wasanaethu trigolion a blaenoriaethau corfforaethol orau, Yn ogystal, cydweithio ar draws y sector cyhoeddus a'r trydydd sector ac o fewn ardaloedd lleol i archwilio cyfleoedd ar gyfer cydweithio aml-ddefnydd / amlasiantaeth o ran asedau.

## 9.3 Sut fyddwn ni'n mesur cynnydd tuag at y canlyniadau hyn?

9.3.1 Byddwn yn mesur cynnydd drwy'r set ganlynol o ddangosyddion perfformiad:

i. $m^2$ o ofod a neilltuwyd ar gyfer defnydd swyddfa a defnydd cysylltiedig (storio, cyfarfodydd, derbynfa, ac ati) ar draws ein portffolio
ii. £ incwm a gafwyd drwy rannu costau, rhentu gofod a/neu arian grant refeniw penodol (e.e. ar gyfer sefydlu Canolbwyntiau Gweithio o Bell) wedi'i hwyluso gan well defnydd o swyddfeydd
iii. £ arbedion refeniw a gyflawnwyd drwy waredu eiddo wedi'i hwyluso gan well defnydd o swyddfeydd
iv. $m^2$ o Ardal Fewnol Gros ym mhortffolio eiddo corfforaethol cyffredinol CSDd

9.3.2 Mae Atodiad 2 yn amlinellu'r data sylfaenol ar gyfer y mesuryddion perfformiad uchod. Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno'n flynyddol i'r 'Grŵp Rheoli Asedau' i adrodd a monitro'r data uchod.

## 9.4 Beth ydym ni'n mynd i'w wneud i gyflawni'r canlyniad?

9.4.1 Cyflawnir y canlyniadau drwy gyfuniad o weithgareddau, a all gynnwys:

- Ystyried nifer a lleoliad adeiladau CSDd y gall staff swyddfa weithio ohonynt, a gwneud newidiadau i'r adeiladau hynny lle bo angen er mwyn gallu gweithio o bell.
- Cysylltu â phartneriaid sector cyhoeddus yn rhanbarth Gogledd Cymru i gytuno ar drefniadau cilyddol / cydweithredol i staff weithio yn adeiladau swyddfa partneriaid.
- Cytuno ar y sail ar gyfer dyrannu nifer llai o ddesgiau yn y dyfodol (h.y. amserlenni i'r tîm neu rannu desgiau a rhoi system ofynnol ar waith ar gyfer dyrannu lle yn unol â hynny.
- Ailddyrannu gofod yn ein swyddfeydd i leihau nifer (ac o bosibl maint) y desgiau.
- Adolygu gofodau swyddfa deiliadaeth sengl neu ddwbl lle maent yn bodoli ar hyn o bryd, ac ystyried "ystafelloedd rheoli" y sefydliad fel defnydd amgen i wella'r gofod.
- Adolygu'r gofyniad am fannau cyfarfod ffurfiol (a chyfleusterau fideo-gynadledda a systemau archebu cysylltiedig) gan weithredu unrhyw newidiadau y cytunwyd arnynt.
- Dylunio a darparu mannau cyfarfod / cydweithio mwy anffurfiol.
- Ystyried cwmpas ar gyfer gwella cyfleusterau lles staff (e.e. mwy o gawodydd i annog beicio i'r gwaith, gwell ardaloedd bwyta / cegin, ac ati).
- Ystyried cyfleoedd i ddod â rhai swyddogaethau gwasanaeth i'r portffolio Gweinyddol (e.e. llyfrgelloedd, Cofrestryddion, ac ati) a'u rhoi ar waith lle bo hynny'n ymarferol.
- Ystyried opsiynau ar gyfer rhannu neu brydlesu gofod yn ein hadeiladau swyddfa i bartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus, a chydweithio, lle bo hynny'n ymarferol.
- Ystyried opsiynau ar gyfer prydlesu gofod yn ein portffolio swyddfeydd yn fasnachol, a'u rhoi ar waith lle bo hynny'n ymarferol.
- Ystyried defnyddio rhai o adeiladau Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer sefydlu cysyniad "Canolfannau Gweithio o Bell" LlC o ofod a rennir, lle bo hynny'n ymarferol.
- Nodi a gweithredu cyfleoedd i gael gwared ar adeiladau sy'n eiddo i CSDd er mwyn lleihau nifer yr adeiladau y mae CSDd yn berchen arnynt ac yn eu cynnal.

# 10. RHEOLI O DDYDD I DDYDD

10.1 Yn ogystal â’r elfennau strategol a amlinellir uchod, mae nifer o weithgareddau “o ddydd i ddydd” lle mae lle i wella y mae angen mynd i’r afael â nhw dros gyfnod nesaf y Strategaeth Rheoli Asedau, gan gynnwys:

1. Proses fwy cadarn â rhaglen ar gyfer arolygon cyflwr, gan sicrhau eu bod yn ddefnyddiol i’r timau cynnal a chadw;
2. Gwell gwybodaeth am adeiladau rhestredig sy’n eiddo i ni;
3. Sicrhau bod gan bob eiddo wasanaeth rheoli clir a dealladwy;
4. Adolygu eiddo yn y Gwasanaethau Amgylcheddol – ar hyn o bryd mae y tu allan i gyfundrefnau cynnal a chadw eiddo ac felly'n anghyson â model Landlordiaid Corfforaethol;
5. Gwella prosesau a monitro cydymffurfiaeth;
6. Parhau â rhaglen System Rheoli Dogfennau a Chofnodion Electronig ar gyfer gwybodaeth am brydlesi;
7. Adolygu'r broses Caffael/Gwaredu;
8. Adolygu a chyfleu'r broses Trosglwyddo Asedau Cymunedol;
9. Adolygu Cylch Gorchwyl y Grŵp Rheoli Asedau (a sicrhau cysondeb â'r Grŵp Strategaeth Cyfalaf);
10. Fel rhan o'r Broses Herio Asedau, archwilio cyfleoedd cydweithio â Sectorau Cyhoeddus eraill yn rhagweithiol.

# ATODIADAU

## Atodiad 1 – Proses Adolygu a Herio'r Cynllun Portffolio

A1.1 Bydd Cynlluniau Portffolio wedi eu sefydlu ar gyfer pob maes portffolio erbyn diwedd 2024. Yn dilyn hyn, bydd proses adolygu eiddo yn cael ei rhoi ar waith gan ddefnyddio'r cynlluniau hyn ar gyfer her gychwynnol ar lefel gwasanaeth, gan uwchgyfeirio i adolygiadau o asedau ardal unwaith y bydd portffolios ac anghenion gwasanaeth wedi'u sefydlu.

A1.2 Bydd cynlluniau'r portffolio yn

- Cael eu cwblhau yn unol â'r gwasanaethau perthnasol
- Nodi cysylltiadau rhwng ein hadeiladau
- Craffu ar ddefnydd, perfformiad a chyflwr adeiladau
- Rhoi cyfle i wasanaethau amlygu eu heriau
- Sbarduno'r broses herio Asedau

A1.3 Bydd cynlluniau'r portffolio yn cael eu rhoi mewn categorïau fel a ganlyn:

- **Cefnogaeth Gorfforaethol** – yr eiddo sy'n cael eu dal i gefnogi darpariaeth gwasanaeth prif ffrwd, gan gynnwys swyddfeydd a storfeydd corfforaethol.

- **Addysg** – yr eiddo hynny a ddelir i gefnogi darpariaeth gwasanaethau addysg.

- **Cymuned** – yr eiddo lle darperir gwasanaethau i'r cymunedau, gan gynnwys Canolfannau Hamdden, Neuaddau Tref, Llyfrgelloedd/siopau un alwad, Canolfannau Ieuenctid, toiledau cyhoeddus a meysydd parcio.

- **Cefn gwlad, Parciau a Mannau Agored** – eiddo sydd wedi eu nodweddu yn ôl tir yn hytrach nag adeiladau, gan gynnwys parciau, caeau chwarae, mannau agored, mynwentydd ac eiddo cefn gwlad.

- **Masnachol** – yr eiddo hynny sydd yn cynhyrchu rhent neu incwm, gan gynnwys ystâd amaethyddol, ystâd datblygu economaidd ac eiddo Arfordirol a Morol.

- **Gofal** – yr eiddo hynny sy'n darparu gofal arbenigol i breswylwyr diamddiffyn, gan gynnwys Cartrefi Preswyl a Gofal, Busnesau a gefnogir a Storfeydd Cyfarpar.

- **Cynnal a Chadw** – yr eiddo sy'n cael eu cynnal i sicrhau bod gwaith cynnal a chadw yn y sir, gan gynnwys Prif/ Is Depos Priffyrdd, Depos Priffyrdd Ymyl Ffordd, Depos Gwasanaethau Stryd a Chyfleusterau Gwastraff.

- **Dros ben / Arall** – eiddo amrywiol nad ydynt yn ffitio i mewn i unrhyw un o'r uchod, gan gynnwys chwareli ac eiddo a thir dros ben/ gwag.

A1.4 Bydd adolygiad cychwynnol yng Ngrŵp Rheoli Asedau'r Cyngor yn sail i her fanylach ar lefel gwasanaeth, a fydd yn seiliedig i raddau helaeth ar Ddigonolrwydd, Addasrwydd a Chyflwr/Perfformiad. Mae'n annhebygol y bydd pob ased yn destun her, gyda rhai yn amlwg yn ofynnol i ddarparu gwasanaethau hanfodol/statudol.

A1.5 Lle nodir defnydd amgen/rhannu posibl neu wagio a gwaredu, bydd y polisïau sefydledig, y prosesau ymgynghori a'r broses gymeradwyo yn cael eu gweithredu i gyflwyno cynigion. Bydd hyn yn cynnwys cyflwyno canfyddiadau a chynigion i'r Grwpiau Aelodau Ardal perthnasol, i'w hystyried a rhoi sylwadau arnynt.

# Atodiad 2 – Dangosyddion Perfformiad

## Blaenoriaeth 1: Camau Gweithredu Hinsawdd ac Adfer Natur

Byddwn yn mesur cynnydd drwy'r set ganlynol o ddangosyddion perfformiad:

i. Tunelli $CO^2$ Net o allyriadau gan amsugno o adeiladau a gweithrediadau'r cyngor.
ii. Tunelli $CO^2$ o allyriadau drwy staff yn cymudo.
iii. Tunelli $CO^2$ o allyriadau drwy deithio busnes.
iv. Tunelli $CO^2$ o allyriadau drwy gadwyni cyflenwi.
v. Canran y tir y mae'r cyngor yn berchen arno ac yn ei weithredu sydd yn y categori "Y Cyfoeth Uchaf o ran Rhywogaethau".

| Mesur | Llinell sylfaen 2019-2020 | Data 2022–2023 | Data 2023–2024 | Data 2024–2025 | Data 2025–2026 | Data 2026–2027 | Data 2027–2028 | Data 2028-2029 Data | Data 2029-2030 | Targed 2030 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Di-Garbon Net - Cyfanswm tunelledd carbon sy'n cael ei allyrru a'i amsugno gan y Cyngor (ac eithrio'r gadwyn gyflenwi) – **Wedi'i feincnodi'n lleol** | 14,030 | 12,062 | | | | | | | | 0 |
| Cyfanswm y tunelli o garbon wedi'i allyrru oherwydd staff yn teithio i'r gwaith. – **Wedi'i feincnodi'n lleol** | 1,848 | 2,860 | | | | | | | | 1,478 |
| Cyfanswm y tunelli o garbon wedi'i allyrru oherwydd teithiau busnes. – **Wedi'i feincnodi'n lleol** | 550 | 251 | | | | | | | | 110 |
| Cyfanswm y tunelli o garbon wedi'i allyrru oherwydd cadwyni cyflenwi. – **Wedi'i feincnodi'n lleol** | 25,125 | 36,912 | | | | | | | | 16,311 |
| Y ganran o dir y mae'r Cyngor yn berchen arno ac yn ei weithredu sydd yn y categorïau uchaf yn ôl cyfoeth rhywogaethau. – **Wedi'i feincnodi'n lleol** | 37.6 | 42.0 | | | | | | | | 51 |

# Blaenoriaeth 2: Moderneiddio Addysg

Byddwn yn mesur cynnydd drwy’r set ganlynol o ddangosyddion perfformiad:

i. Nifer y lleoedd gwag mewn ysgolion ar draws y portffolio ysgol
ii. Nifer y lleoedd gwag mewn ysgolion Cynradd
iii. Nifer y lleoedd gwag mewn ysgolion Uwchradd
iv. Nifer adeiladau ysgolion sydd yn y categori cyflwr materol gwael (Gradd C neu D)
v. Tunelli o allyriadau CO2 o adeiladau ysgolion

| Mesur | Llinell sylfaen 2024 | Data 2025 | Data 2026 | Data 2027 | Data 2028 | Data 2029 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y lleoedd gwag mewn ysgolion ar draws y portffolio ysgol – **Wedi’i feincnodi’n lleol** | 2,492 | | | | | |
| Nifer y lleoedd gwag mewn ysgolion Cynradd – **Wedi’i feincnodi’n lleol** | 1,170 | | | | | |
| Nifer y lleoedd gwag mewn ysgolion Uwchradd – **Wedi’i feincnodi’n lleol** | 1,322 | | | | | |
| Nifer adeiladau ysgolion sydd yn y categori cyflwr materol gwael (Gradd C neu D) – **Wedi’i feincnodi’n lleol** | 0 | | | | | |
| Tunelli o allyriadau CO2 o adeiladau ysgolion – **Wedi’i feincnodi’n lleol** | 3,362 | | | | | |

## Blaenoriaeth 3: Adfywio

O ran elfennau eiddo ein hymdrechion i adfywio, byddwn yn mesur cynnydd drwy'r set ganlynol o ddangosyddion perfformiad mewn perthynas ag eiddo y buom yn ymwneud yn uniongyrchol â nhw fel Cyngor:

i. $m^2$ o arwynebedd llawr nas defnyddir/adfeiliedig wedi'i ddymchwel
ii. $m^2$ o arwynebedd llawr masnachol wedi'i greu
iii. nifer y busnesau yn y lleoliad
iv. $m^2$ o arwynebedd llawr preswyl wedi'i greu
v. Nifer o unedau preswyl wedi'u creu

| Mesur | Llinell sylfaen 2023-2024 | Data 2024-2025 | Data 2025-2026 | Data 2026-2027 | Data 2027-2028 | Data 2028-2029 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| $m^2$ o arwynebedd llawr nas defnyddir/adfeiliedig wedi'i ddymchwel<br>**– Wedi'i feincnodi'n lleol** | 0 | | | | | |
| $m^2$ o arwynebedd llawr masnachol wedi'i greu<br>**– Wedi'i feincnodi'n lleol** | 1,500 | | | | | |
| Nifer y busnesau yn y lleoliad<br>**– Wedi'i feincnodi'n lleol** | 0 | | | | | |
| $m^2$ o arwynebedd llawr preswyl wedi'i greu<br>**– Wedi'i feincnodi'n lleol** | 0 | | | | | |
| Nifer o unedau preswyl wedi'u creu<br>**– Wedi'i feincnodi'n lleol** | 0 | | | | | |

## Blaenoriaeth 4: Ffyrdd Newydd o Weithio a Chydweithio

Byddwn yn mesur cynnydd drwy’r set ganlynol o ddangosyddion perfformiad:

i. $m^2$ o ofod a neilltuwyd ar gyfer defnydd swyddfa a defnydd cysylltiedig (storio, cyfarfodydd, derbynfa, ac ati) ar draws ein portffolio
ii. £ incwm a gafwyd drwy rannu costau, rhentu gofod a/neu arian grant refeniw penodol (e.e. ar gyfer sefydlu Canolbwyntiau Gweithio o Bell) wedi’i hwyluso gan well defnydd o swyddfeydd
iii. £ arbedion refeniw a gyflawnwyd drwy waredu eiddo wedi’i hwyluso gan well defnydd o swyddfeydd
iv. $m^2$ o Ardal Fewnol Gros ym mhortffolio eiddo corfforaethol cyffredinol CSDd

| Mesur | Llinell sylfaen 2023-2024 | Data 2024-2025 | Data 2025-2026 | Data 2026-2027 | Data 2027-2028 | Data 2028-2029 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| $m^2$ o ofod a neilltuwyd ar gyfer defnydd swyddfa a defnydd cysylltiedig (storio, cyfarfodydd, derbynfa, ac ati) ar draws ein portffolio | 8,132 | | | | | |
| £ incwm a gafwyd drwy rannu costau, rhentu gofod a/neu arian grant refeniw penodol (e.e. ar gyfer sefydlu Canolbwyntiau Gweithio o Bell) wedi’i hwyluso gan well defnydd o swyddfeydd | I’w gadarnhau | | | | | |
| £ arbedion refeniw a gyflawnwyd drwy waredu eiddo wedi’i hwyluso gan well defnydd o swyddfeydd | 0 | | | | | |
| $m^2$ o Ardal Fewnol Gros ym mhortffolio eiddo corfforaethol cyffredinol CSDd | 11,165 | | | | | |